

Bydd Arholiadau Mynediad Prifysgol Aberystwyth, fel arfer, yn cael eu cwblhau mewn dogfen 'Word', a chyflwynir ar-lein gan ddefnyddio ein hamgylchedd dysgu rhithwir, Blackboard. Isod ceir amlinelliad o bob cam o'r broses. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynefino â'r wybodaeth a ddarperir.

Os ydych yn sefyll yr arholiadau yn eich ysgol/coleg, trafodwch y trefniadau gyda'ch Swyddog Arholiadau ymlaen llaw, i sicrhau eich bod yn gwybod pryd a ble y cynhelir yr arholiadau.

Ysgogi eich cyfrif TG Prifysgol Aberystwyth

Bydd pob ymgeisydd yn cael enw defnyddiwr a chyfrinair Prifysgol Aberystwyth yn ystod wythnos gyntaf fis Chwefror. Bydd angen i chi ysgogi eich cyfrif **cyn dyddiad yr arholiadau** (ni fydd angen ysgogi cyfrif ebost newydd). Bydd dolen ysgogi yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad e-bost a roddwyd ar eich ffurflen gais UCAS. **Wedi ichi roi eich cyfrif ar waith, nodwch y manylion mewngofnodi a'r cyfrinair - bydd angen nhw ar ddiwrnod yr arholiadau.** Cysylltwch ag is@aber.ac.uk gydag unrhyw broblemau.


Cyfarwyddiadau - fideo

Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r weithdrefn arholiadau drwy edrych ar [y fideo byr](#) ar y gwefan (o dan 'Sut fydd yr arholiadau ar-lein yn gweithio?') sy'n esbonio beth i'w ddisgwyl.

Ar ddiwrnod yr arholiadau

Byddwch yn cael copi caled o'r papur arholiad gan aelod o staff. **Peidiwch â chysylltu â'r we nes bod yr arholiad wedi gorffen a'ch bod yn barod i gyflwyno eich papur.** Bydd angen i chi:

1. Agor dogfen Word ar eich cyfrifiadur bwrdd gwaith a chadw'r ddogfen yn syth yn y fformat canlynol (CYFENW_ENW_CYNTAF_PWNC). Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'ch dogfen yn rheolaidd.
2. Ar frig y dudalen nodwch yn glir: eich enw llawn, ysgol a theitl llawn y pwnc.
3. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhifo/labelu eich atebion yn glir (e.e. 'Cwestiwn 1A').
4. Pan fyddwch yn barod i gyflwyno eich papur arholiad, agorwch borwr ar eich peiriant (Chrome neu Firefox) a mewngofnodwch i [Blackboard](#) gan ddefnyddio'r enw defnyddiwr a chyfrinair a ddarparwyd i chi.
5. Cliciwch ar 'Arholiadau Ysgoloriaeth Mynediad – Entrance Scholarship Exams 2022' o dan y tab 'Fy Nghyfundrefnau'.



6. Agorwch y ffolder ar gyfer pwnc yr arholiad yr ydych yn ei sefyll ar gyfer y sesiwn honno.



7. Cyflwynwch eich dogfen Word i'r man cyflwyno Turnitin yn eich ffolder. Darperir cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn yn y fideo soniwyd amdano uchod, sydd ar gael ar we-dudalennau Arholiadau Mynediad y Brifysgol o dan [‘Sut fydd yr arholiadau ar-lein yn gweithio?’](#).



Hanes/History

>> [View/Complete](#)

Noder: Bydd arholiadau **Mathemateg a Mathemateg Bellach** yn cael eu cwblhau ar bapur llinellau, yn hytrach nag ar y cyfrifiadur. Bydd y papurau hyn yn cael eu casglu can y goruchwylwyr, eu sganio, a'u hanfon trwy e-bost atoch fel y gallwch gyflwyno'r papur trwy Turnitin, ym mhresenoldeb goruchwylwr.

8. Gwnewch yn siŵr fod eich papur wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Dylech gael y neges ganlynol:

Congratulations - your submission is complete! This is your digital receipt. You can print a copy of this receipt from within the Document Viewer.

Noder: Yn ogystal â gweld y neges uchod, dylech hefyd gael e-bost gan Turnitin yn cadarnhau eich bod wedi cyflwyno'r gwaith yn llwyddiannus (caiff hwn ei anfon i'w cyfeiriad e-bost a roddwyd yn eich cais). Rydym yn argymhell eich bod hefyd yn gwirio eich bod wedi cael yr e-bost hwn oherwydd hwn yw eich derbynneb ddigidol (h.y. prawf bod eich papur arholiad wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus). Os nad ydych yn gweld y neges werdd uchod a/neu'r e-bost, gofynnwch i'ch goruchwylwr am gymorth.

9. Allgofnodwch o Blackboard.



Arfer Da yn yr Arholiadau Mynediad:

Sicrhewch eich bod yn darllen [Polisi ar Ymddygiad Da ac Annheg ar gyfer yr Arholiadau Mynediad](#). Byddwch yn ymwybodol bod Turnitin yn cynhyrchu 'adroddiad tebygrwydd' a fydd yn tynnu sylw at enghreifftiau o debygrwydd rhwng eich gwaith ac unrhyw waith a gyhoeddwyd yn flaenorol (gan gynnwys ffynonellau rhyngwyd). Bydd y Bwrdd Arholi yn ymchwilio i unrhyw debygrwydd o'r fath.

Canlyniadau:

Bydd canlyniadau'n cael eu e-bostio i ymgeiswyr a'u Swyddogion Arholiadau o fewn 4-6 wythnos wedi'r arholiadau.